# Staff blaenorol Mohammad Asghar AC

30 Medi 2010

Annwyl

**Cais am Wybodaeth.**

Cyfeiriad at eich cais a ddaeth i law ar 22 Medi pan wnaethoch ofyn am

*"Ddatgelu faint o arian i gyd sydd wedi ei dalu i staff blaenorol Mohammad Asghar AC mewn cysylltiad â dod â'u cyflogaeth i ben ar ôl i Mr Asghar newid ei blaid."*

Yn gyntaf, dylwn wneud yn glir, gan nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyflogi staff sy'n gweithio i Aelodau'r Cynulliad (er ei fod yn trefnu talu gweithwyr cymorth sy'n cael eu cyflogi gan Aelodau'r Cynulliad ac AC yn hawlio lwfans staff amdanynt), mae'r wybodaeth y gallwn ei darparu yn gyfyngedig i'r hyn sy'n cael ei gofnodi gan Gomisiwn y Cynulliad, ac mae'r ymateb hwn yn amodol ar y cyfyngiad hwnnw.

Gallaf ddweud wrthych nad oes dim taliadau wedi eu gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i staff blaenorol Mohammad Asghar AC o ganlyniad i benderfyniad Mr Asghar i ymuno â'r Blaid Geidwadol, ac nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddim gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais am wybodaeth.

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae manylion am egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad wedi eu gosod allan

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 898889
E-bost/Email:Kevin.willoughby@wales.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn
http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm
Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Kevin Willoughby
Y Rheolwr Mynediad at Wybodaeth